

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

RHEOLAU'R FYNWENT

Rheolau'r fynwent sydd wedi eu mabwysiadu gan Cyngor Cymuned Llanbedrog. Penodwyd Clerc y Cyngor fel Arolygydd a Thrysorydd y fynwent gyda'r awdurdod i gario allan y rheolau;

1. Cyffredinol

- a) Bydd llyfr cofrestru i'w gadw a'i lenwi gan yr Arolygydd.
- b) Ni chaniateir unrhyw waith a bydd yn amharu neu niweidio cyflwr y fynwent.
- c) Ni chaniateir plannu unrhyw goed, bylbiau na phlanhigion, na phot blodau ychwanegol.
- d) Rhoddir hawl i'r ymgymwrwr osod cawg cofeb yn ganol neu ar ochr Sylfaen y garreg fedd.
- e) Ni chydabyddir unrhyw hawl i lle bedd yn yr hen fynwent heb derbynneb.
- f) Y bedd yw gadw yn weddus a thaclus.
- g) Bydd archwiliad blynyddol manwl o'r holl gerrig beddi a rhestrir unrhyw garreg rydd neu perygles. Bydd y Cyngor yn hysbysu'r teulu ac os nad oes gwelliannau yn cael eu gwneud yna rhoddir y garreg i orwedd ar y bedd.

2. Taliadau

- a) Bydd pob taliad yn cael ei wneud trwy'r Clerc.
- b) Bydd y Clerc yn darparu adroddiad ariannol yn flynyddol.
- c) Ffioedd Claddu - gweler ar wahân.

3. Trefniadau Ymgymrwyr

- a) Ni wneir unrhyw waith yn y fynwent heb yn gyntaf dderbyn caniatâd yr Arolygydd.
- b) Ni does gan ymgymwrwr yr hawl i drefnu angladd heb yn gyntaf cysylltu efo'r Arolygydd a'r Torrwr Beddi i drefnu dyddiad.
- c) Bydd rhybudd o leiaf 48 awr ymlaen llaw i'r Arolygydd ynglŷn ag angen i gladdu yn y fynwent.
- d) Bydd rhaid derbyn hawl claddu neu ganiatâd i osod carreg neu i ddodi casged mewn bedd gan yr Arolygydd.
- e) Mae'n rhaid claddu llwch a dim i'w wasgaru mewn unrhyw fan yn y fynwent.
- f) Bydd tystysgrif neu dderbynneb gan y cofrestrydd i'w cyflwyno i'r Arolygydd o farwolaeth person sydd i'w gladdu, yn ogystal â manylion llecyn y bedd, cyn claddu unrhyw gorff neu lwch yn y fynwent.
- g) Mae yn rhaid i'r ymgymwrwr anfon y ffurflen werdd neu arall a'r tal cyn y gellir claddu unrhyw gorff neu lwch yn y fynwent.
- h) Yr ymgymwrwr sydd yn gyfrifol am holl waith y bedd ac nid y Cyngor.

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

- i) Mae cyfrifoldeb o dynnu ac ail osod carreg fedd yn disgyn ar y teulu. Ni does gan yr ymgymerwr hawl i symud carreg fedd heb yn gyntaf derbyn caniatâd yr Arolygydd.

4. Torrwr Beddi

Bydd y Cyngor yn penodi Torrwr Beddi i weithio o dan yr Arolygydd ac i;

- a) Wneud yn siŵr nad yw'r gwaith yn amharu ar unrhyw fedd neu garreg
- b) Sicrhau bod gorchudd dros y cerrig cyfagos
- c) Rhaid gwneud gwaith gyda slabiau ym mhob bedd a chaeadau
- d) Bydd y torrwr beddi yn gyfrifol am archwilio beddi hyd at flwyddyn o ddyddiad claddu er sicrhau nad oes ymsuddiant.
- e) Bydd y Cyngor yn archwilio'r gwaith yn achlysurol.

5. Claddu

- a) Ni chaniateir ond plwyfolion Llanbedrog os nad oes amgylchiadau arbennig e.e.. wedi gadael y plwyf oherwydd gwaeledd neu henoed. Bydd y penderfyniad terfynol yn nwylo'r Cyngor.
- b) Rhaid i'r Cerrig a'r beddi cyd fynd gyda mesuriadau'r cynllun. (Carreg dim uwch na 1,200mm)
- c) Ni chaniateir dewis safle bedd yn y rhan Newydd o'r fynwent. Yma bydd y safle bedd yn dilyn trefn o'r naill i'r llall.
- d) Yn y rhan Newydd o'r fynwent bydd llecyn arbennig ar gyfer claddu casged neu weddillion.

Dyddiad adolygu a mabwysiadu: 30 Medi 2024